



Newyddion Diweddaraf | **Newyddion Diweddaraf** | Newyddion Diweddaraf

Mae tymor arholiadau ar y gweill ers tro ac er bod pennau ein myfyrwyr Blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth yn eu llyfrau yn brysur adolygu, cafodd myfyrwyr eraill gyfle i ymweld â Tsieina! Er mai hanner tymor byr oedd hwn, mae gennym hanesion i'w rhannu a fydd yn siŵr o'ch difyrru!

**Myfyrwyr Ysgol Aberconwy yn Ymweld â Phrifysgol Xiamen yn Tsieina!**

Yn ddiweddar, mwynhaodd myfyrwyr daith pythefnos i Tsieina i barhau â'u hastudiaethau mewn Mandarin. Arhosodd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Xiamen gyda disgyblion o Ysgol Uwchradd Argoed ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Yn ogystal â chael gwersi Mandarin, cawsant hefyd gyfle i fwynhau gweithgareddau diwylliannol fel cerfio pren traddodiadol, paentio a chrefftau ymladd.

Yn ogystal, darparodd Canolfan Confucius y Brifysgol gyfleoedd i'r myfyrwyr ymarfer eu Mandarin y tu allan i'r dosbarth, gydag ymweliadau â chwmni casglu a blasu te lleol, temlau lleol ac ynys brydferth oddi ar arfordir Xiamen, o'r enw Gulang Yu.

Cyn gadael y Brifysgol i dreulio ychydig ddyddiau fel twristiaid yn Shanghai, safodd y myfyrwyr eu harholiadau terfynol, a llwyddodd pawb i'w pasio!

Un o ddyddiau mwyaf cofiadwy eu cyfnod yn Tsieina oedd eu taith i Zhujiajiao, pentref dŵr traddodiadol ar gyrion Shanghai. Cafodd y myfyrwyr gyfle i weld bwyd traddodiadol yn cael ei wneud a llenwi eu bagiau ag anrhegion ar gyfer eu teuluoedd, ar ôl mynd ar daith hamddenol ar gwch trwy'r pentref.



**Gwobr Urdd Lifrai Cymru**

Yn dilyn proses ymgeisio heriol a thrwyadl, dewiswyd tri myfyriwr o Ysgol Aberconwy i dderbyn Gwobr fawreddog Cwmni Anrhydeddus Urdd Lifrau Cymru ar gyfer Ysgolion.

Esboniodd Jean Bryson, "Byddem fel arfer yn dewis dau fyfyrwr i ennill y wobr, ond oherwydd safon uchel iawn y ceisiadau eleni, fe benderfynon ni ddyfarnu gwobrau i dri myfyriwr. Mae'n bleser gennyf gyflwyno eu gwobrau i'r myfyrwyr hyn, nid yn unig y bydd hyn yn helpu gyda'u haddysg bresennol ond bydd yn eu gosod ar y trywydd iawn ar gyfer y dyfodol sydd o'u blaenau hefyd."

Cyflwynwyd tystysgrifau mewn ffrâm i bob myfyriwr a chawsant wobr ariannol i gynorthwyo gyda'u hanghenion addysgol parhaus.



## Pedwar Cydweithiwr yn arddangos eu Llwyddiannau Marathon!

O farathon Conwy i farathon Paris, heb anghofio marathon nodedig Llundain, mae pedwar cydweithiwr o Ysgol Aberconwy wedi llwyddo i gwblhau'r gamp o redeg marathon yn ddiweddar!

Gosododd Lynn Jones, CP y Pennaeth, nod iddi hi ei hun o gwblhau ei marathon cyntaf eleni. Ar ôl cwblhau nifer o rasys hanner marathon, roedd hi'n awyddus am fwy o her. Penderfynodd gymryd rhan yn Marathon Conwy cyntaf erioed, a oedd yn cynnwys dwy her anhygoel – y Gogarth Fawr a Bryn Penrhynside!

Llwyddodd athro Ricky Jones i gyflawni'r un gamp drwy gwblhau ei farathon cyntaf erioed eleni hefyd, ond y tro yma ar strydoedd Llundain lle bu'n mwynhau'r torfeydd a oedd wedi ymgynnull o bob cwr o'r byd.

Wrth sodlau Ricky roedd athrawes arall, Liz Brookes, a ymunodd â Ricky a'r 42,547 o redwyr eraill a groesodd y llinell derfyn yn Llundain eleni. Gwnaeth Liz gais 10 gwaith i gael lle drwy bleidlais gudd ar gyfer Marathon Llundain ac eleni daeth ei breuddwyd yn wir!

Yn olaf, daw Ann Bradshaw, a benderfynodd ymweld â golygfeydd Paris wrth wneud marathon. Mae Ann yn cyfaddef ei bod yn chwilio'n barhaus am farathonau, ac mae ei lle ym Marathon Paris flwyddyn nesaf eisoes wedi'i drefnu, gyda marathon arall i ddod ym mis Hydref eleni!

Felly dyna chi, pedwar aelod staff a phedwar llwyddiant mewn marathon! Llongyfarchiadau i bawb ohonoch, fel ysgol rydym yn falch ohonoch i gyd.

## Peidiwch ag Anghofio Cadw Llygad ar Ddyddiadau'r Tymor...

Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau'r tymor a dyddiau hyfforddi staff, ewch i'n calendr ar wefan yr ysgol ar gyfer ein tudalen we dyddiadau tymor sy'n rhoi'r holl wybodaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd hon...



Cliciwch  
Yma...

### Dyddiadau allweddol i ddod:

- **Ysgol yn agor:** Dydd Llun, Mehefin 3ydd
- **Noson Rieni BI8:** Dydd Mawrth, Mehefin 11eg
- **Noson Rieni BI7:** Dydd Mawrth, Gorffennaf 9fed
- **Diwrnod ola'r tymor:** Dydd Gwener, Gorffennaf 19eg